Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Tonnau
# Canolfan Hamdden
# Y Bermo
# Gwynedd
# LL42 1HA

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Wil Williams**

**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/06/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Y Tonnau yn lleoliad meithrin cofrestredig sy’n cyfarfod yn y ganolfan hamdden yn nhref Y Bermo.  Agorwyd y lleoliad yn Chwefror 2014 ar gyfer darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i blant Y Bermo.

Mae’r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefndir i’r sesiynau.  Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu’r lleoliad.  Saesneg yw prif iaith y cartref i bob plentyn.

Mae’r lleoliad yn darparu sesiynau o dair awr am bum bore’r wythnos i blant tair oed ynghyd â sesiynau ychwanegol ar dri phrynhawn i blant nad oes lle iddynt yn y boreau.  Mae 26 o blant wedi’u cofrestru yn y lleoliad gyda 19 ohonynt yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol.

Mae plant yn cael eu haddysgu gan reolwr, arweinydd a thair ymarferydd sydd â chymhwyster sy’n berthnasol i’r Cyfnod Sylfaen.

Dyma ei arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn. Nid yw eto wedi’i arolygu gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- bron pob plentyn yn gwneud cynnydd realistig ym mhob maes dysgu, gan gynnwys yr Iaith Gymraeg;
- gan bron pob plentyn ddiddordeb yn eu tasgau ac maent yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad.
- gweithgareddau symbylus yn hybu ymrwymiad plant ac yn eu hannog i fod yn ddysgwyr gweithredol;
- ansawdd addysgu a'r trefniadau asesu, o safon uchel;
- ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau; a'r
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal at feysydd dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn creu synnwyr cryf o ddiben sy'n hybu a chynnal gwelliant yn barhaus;
- ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm ac yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu;
- pob aelod staff yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant;
- ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.
- parodrwydd y lleoliad i weithredu ar gyngor ac i arbrofi gyda ffyrdd newydd a gwahanol o weithio; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Argymhellion

1. Sefydlu ardal ddysgu yn yr awyr agored.

2. Sicrhau bod gan blant rôl weithredol yn y prosesau asesu

3. Arfarnu effaith y cynllun datblygu ar safonau a darpariaeth.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ac ystyried eu hoedran a'u man cychwyn ar fynediad i'r lleoliad, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd realistig ym mhob maes dysgu. Mae llawer yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn rhwydd ac yn wynebu profiadau dysgu newydd yn eiddgar gan ddatblygu'n dda tuag at fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn ddysgwyr ymholgar a brwdfrydig sy'n fodlon mentro a gwneud camgymeriadau.

Mae bron pob plentyn yn mynegi eu hunain yn ddealladwy, maent yn gwrando ac yn ymateb i gyfarwyddiadau ac yn defnyddio iaith briodol wrth iddynt chwarae. Mae bron pob un yn dangos diddordeb mewn llyfrau. Maent yn trin llyfr fel darllenwr ac yn mwynhau gwrando ar storïau. Wrth iddynt gofrestru ar gychwyn sesiynau, mae pob plentyn yn adnabod enw eu hunain gyda llawer yn adnabod enwau plant eraill yn ogystal. Wrth iddynt arbrofi gyda gwahanol gyfryngau yn yr ardal graffeg, mae llawer o'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i greu marciau i wahanol bwrpasau.

O'r cyfnod y maent wedi dechrau yn y lleoliad, mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd addas yn eu dealltwriaeth o'r Gymraeg.

Yn ystod eu gweithgareddau a'u chwarae dydd-i-ddydd, mae bron pob plentyn yn defnyddio eu medrau rhifedd gyda hyder cynyddol. Maent yn ymuno â gweddill y grŵp yn frwdfrydig iawn wrth ganu amrywiaeth eang o rigymau rhif neu wrth gyd-gyfrif faint o blant sy'n bresennol yn y dosbarth. Mae'r plant mwyaf hyderus yn cyfrif hyd at ddeg gwrthrych a thu hwnt, gyda chywirdeb priodol. Wrth chwarae rôl yn y tŷ bach twt, mae'r rhan fwyaf yn arddangos ymwybyddiaeth briodol o bwrpas arian.

Gwna llawer o'r plant gynnydd da yn eu medrau TGCh. Maent yn bwydo cyfarwyddiadau i degan llawr gyda chywirdeb priodol ac yn defnyddio llechi electronig yn hyderus ar gyfer tynnu lluniau ac ymarfer ffurfio llythrennau.

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn arddangos lefel uchel o ddiddordeb a chymhelliant tuag at ddysgu ac yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad. Mae ganddynt berthynas glos gydag ymarferwyr ac maent yn ymddiried yn eu harweiniad. Mae pob unigolyn yn teimlo'n ddiogel yn y lleoliad ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol.

Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda yn ystod sesiynau ac maent yn ystyriol a chwrtais tuag at eu cymheiriaid ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n gyfeillgar gan arddangos lefelau cynyddol o annibyniaeth. Dywed pob plentyn eu bod yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad gyda llawer ohonynt yn awyddus i ddweud wrth arolygwyr beth maent yn hoffi gwneud.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydgynllunio effeithiol, mae ymarferwyr yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n cyfarfod ag anghenion a diddordebau plant o'r holl ystod gallu yn llwyddiannus. Mae hyn yn galluogi pob plentyn i wneud cynnydd da tuag at gyfarfod deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Mae gweithgareddau symbylus a hyblyg yn hybu ymglymiad plant yn dda ac yn eu hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu. Mae natur gydweithredol a phenagored y profiadau dysgu yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i'r plant i lunio perthnasau cadarnhaol ac i feithrin agweddau goddefgar tuag at ei gilydd.

Trwy gynllunio gofalus a systematig, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn caffael y sgiliau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh angenrheidiol i'w galluogi i fanteisio ar eu holl brofiadau dysgu. Mae ymweliadau i'r lleoliadau gan weithwyr Gwasanaeth Tân, y Bad Achub a Gwylwyr y Glannau yn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant yn sylweddol.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hybu'r Gymraeg. Mae plant yn clywed oedolion yn siarad Cymraeg o'u hamgylch yn gyson a chânt eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg gymaint ag y gallant. Caiff traddodiadau a dathliadau Cymreig eu hyrwyddo'n effeithiol, er enghraifft, trwy wrando ar storïau a dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgwyl llawer gan blant o bob gallu ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu. Trwy gydgynllunio manwl a threfniant 'gweithwyr allweddol,', llwydda'r ymarferwyr i greu cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plentyn yn yr ardaloedd dysgu a'r tasgau ffocws sy'n cael eu harwain gan oedolion.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu eu dulliau addysgu ar gyfer anghenion yr unigolyn. Un o nodweddion amlycaf yr addysgu yw ffordd hwyliog yr ymarferwyr o gyflwyno'r Gymraeg ar gychwyn sesiynau. Mae gêm dyfalu pa wrthrych sydd yn y cwdyn, trafod y tywydd a chydganu rhigymau rhif, yn sbarduno diddordeb plant ac yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu'r iaith.

Mae'r ymarferwyr yn asesu cynnydd plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd pob unigolyn trwy gydol ei amser yn y lleoliad. Caiff deilliannau asesiadau eu defnyddio'n effeithiol iawn gan ymarferwyr i adnabod anghenion unigol plant ac i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes gan blant eu hunain rôl weithredol yn y prosesau asesu ac mae hyn yn cyfyngu ar ei effeithiolrwydd.

Trwy dderbyn albwm o luniau plant ar waith yn yr ardaloedd dysgu, caiff rhieni wybodaeth ddiddorol a llawn am gynnydd eu plant yn ystod eu hamser yn y lleoliad.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach. Mae arferion dyddiol fel bwyta ffrwythau yn ystod byrbrydau ac annog plant i lannau eu dannedd ar ôl bwyta, yn cyfrannu’n dda at eu lles.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad personol, cymdeithasol a moesol plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn pwysleisio’n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, ac i fod yn onest a theg. Mae hyn yn help mawr i’r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy’n iawn a’r hyn sydd ddim yn iawn. Mae cymryd rhan mewn fel Diwalli yn helpu plant i feithrin parch plant tuag at draddodiadau diwylliannol eraill mewn gwahanol rannu o’r Byd.

Mae’r amrywiaeth o strategaeth a gaiff eu defnyddio gan ymarferwyr ar gyfer hyrwyddo ymddygiad da yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ymagweddau plant ac ar eu gallu i fod yn fwy ystyriol o blant eraill o’u cwmpas.

Mae trefniadau priodol ar gyfer ail-gylchu ac arbed gwastraff.

Mae’r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu’n gyflym a didrafferth yn y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn ynghylch sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol i blant a rhieni.

Caiff anghenion dysgu plant eu nodi’n fanwl pan fyddant yn ymuno â’r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae’r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant fynediad cyfartal at feysydd dysgu a gweithgareddau a ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar a sicrhau bod plant a staff yn rhydd o unrhyw ymyrraeth. Llwydda ymarferwyr i greu amgylchedd symbylus lle gall pob plentyn fanteisio’n llawn ar brofiadau dysgu a datblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd sy’n galluogi ymarferwyr i gyflwyno gofynion y Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus. Caiff ymwelwyr o’r gymuned fel Gwylwyr Y Glannau, eu defnyddio’n effeithiol gan staff i gefnogi dysgu yn y dosbarth.

Mae’r adeiladau a’r ystafelloedd o ansawdd da iawn ac yn hygyrch i rieni, plant ac ymwelwyr, gan gynnwys yr anabl. Mae’r ystafelloedd dysgu eang yn darparu amgylchedd cyfforddus a chartrefol ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae’r diffyg ardal ddysgu bwrpasol y tu allan yn cyfyngu ar yr amrediad o brofiadau dysgu y gall ymarferwyr eu darparu i’r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Trwy ymroddiad a brwdfrydedd yr arweinwyr, mae'r lleoliad wedi llwyddo i greu ethos cadarnhaol dros ben ble mae plant a staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ymarferwyr yn rhannu gwerthoedd cyffredin am ddysgu, ymddygiad a pherthnasau ac maent yn cydweithio'n effeithiol iawn i sicrhau bod y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus. Mae'r synnwyr cryf o ddiben sydd yn y lleoliad yn hybu a chynnal gwelliant yn effeithiol. Mae dysgu ac addysgu yn cael eu rheoli'n dda, ac mae polisïau'r lleoliad yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Yn ystod sesiynau, mae gan staff ddealltwriaeth eglur o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn eu cyflawni'n gydwybodol. Mae'r berthynas gadarnhaol iawn gyda phlant a rhieni yn cyfrannu'n gryf tuag at greu synnwyr o gymuned. Mae gweithdrefnau effeithiol ar gyfer rheoli a gwerthuso perfformiad staff.

Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth dda am berfformiad y lleoliad ac mae'n cyflawni ei gyfrifoldebau'n gydwybodol. Mae cadeirydd y pwyllgor yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol fel cyfaill beirniadol ac mae'n cyfrannu'n dda tuag ei reolaeth strategol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwybod yn dda beth yw cryfderau'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn sicrhau gwelliant. Maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella'r ddarpariaeth ac i godi safonau. Mae trefniadau cadarn ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.

Mae arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni ac yn gweithredu ar unrhyw awgrymiadau a wneir ganddynt. Maent hefyd yn manteisio'n sylweddol ymweliadau a chyngor proffesiynol athrawes gefnogol yr awdurdod lleol. Gall ymarferwyr ddangos bod hunan-arfarnu eisoes wedi eu galluogi i wneud gwelliannau mewn cynllunio ac asesu.

Mae'r cynllun datblygu yn rhoi sylw priodol i'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg drwy hunan-arfarnu. Er bod y cynllun yn rhoi cyfeiriad clir i ddatblygiad y lleoliad, nid oes trefniadau clir ar gyfer arfarnu beth fu effaith gweithredu'r cynllun ar safonau a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.

Caiff rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn darparu pecyn gwybodaeth defnyddiol i rieni ar fynediad eu plant i'r lleoliad ac yn gwneud defnydd dychmygus o gyfryngau cymdeithasol er mwyn diweddaru gwybodaeth y rhieni yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth glir o bolisïau, gweithdrefnau a disgwyliadau'r lleoliad.

Mae'r trefniadau pontio effeithiol sydd rhwng y lleoliad a'r ysgol yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym yn nosbarth y Cyfnod Sylfaen a bod dilyniant a pharhad yn eu profiadau dysgu.

Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, yn rhannu gwybodaeth am blant. Maent yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth chwanegol ar blant.

Mae'r cydweithio agos sydd rhwng y lleoliad ag athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol wedi cyfrannu'n sylweddol at wella ansawdd y ddarpariaeth a chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ddysgu gref sydd wedi sefydlu diwylliant cadarnhaol o gydweithio. Caiff aelodau staff eu cefnogi'n dda gan ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n sicrhau eu bod yn diweddaru eu gwybodaeth a'u medrau yn rheolaidd.

Mae parodrwydd ymarferwyr i weithredu ar gyngor ac i arbrofi gyda ffyrdd newydd a gwahanol o weithio, er enghraifft asesu ar gyfer dysgu, yn gryfder sy'n arwain at welliant parhaus.

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod y gofal a'r gynhaliaeth sydd ar gael i blant o'r safon uchaf bosibl.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus ac yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Mae penderfyniadau gwariant yn cael eu harfarnu'n ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Ag ystyried y deilliannau da a chynnydd parhaus y plant, mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i rieni

*Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 13 | 11<br>85% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 12 | 10<br>83% | 2<br>17% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 13 | 9<br>69% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 69% | 26% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 13 | 11<br>85% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 13 | 9<br>69% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 14% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 64% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 13 | 8<br>62% | 4<br>31% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 13 | 10<br>77% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 29% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 13 | 10<br>77% | 3<br>23% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 13 | 7<br>54% | 5<br>38% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 30% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr William Edward Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |